Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Dyddiad / Date: 02 Awst 2002

Annwyl Gyfaill

**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**YR ADOLYGIAD POLISI AR ADFYWIO CYMUNEDOL**

**Cefndir**

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Cynulliad Cenedlaethol wedi cynnal adolygiad polisi o rôl grwpiau cymunedol yn y gwaith o adfywio cymunedol. Archwiliodd yr adolygiad batrwm a chyllid y polisïau presennol, ynghyd â rôl partneriaethau yn y broses o ddatblygu'r polisïau hynny. Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft ar ddiwedd mis Mehefin, a disgwylir y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

Diben ysgrifennu'r llythyr hwn atoch yw eich hysbysu bod y Pwyllgor bellach yn cynnal Rhan II o'i adolygiad polisi ar adfywio cymunedol, a fydd yn canolbwyntio ar Gynyddu Gallu.

**Gwahoddiad i gyfrannu**

Mae'r Pwyllgor yn dymuno eich gwahodd i gyfrannu at ei ystyriaethau trwy ddarparu cyflwyniad ysgrifenedig yn amlinellu barn eich sefydliad ar y polisïau a'r rhaglenni sy'n ceisio cynyddu gallu o fewn y maes adfywio cymunedol, gan gynnwys unrhyw wybodaeth ffeithiol a all fod yn berthnasol. Nid oes unrhyw ffurf benodedig ar gyfer cyflwyniadau, ond efallai y bydd o gymorth ichi gadw cylch gorchwyl canlynol yr adolygiad mewn cof. Rwyf hefyd wedi nodi rhestr o faterion y byddwch o bosibl yn dymuno eu trafod yn eich ymateb.

Ymhen amser, efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno eich gwahodd i roi cyflwyniad llafar i ategu eich cyflwyniad ysgrifenedig.

**Y cylch gorchwyl**

Dyma'r cylch gorchwyl ar gyfer cam nesaf yr adolygiad:

- ystyried y trefniadau ar gyfer cynyddu gallu cymunedau i gymryd rhan yn yr agenda adfywio;

- ystyried y trefniadau ar gyfer datblygu gallu asiantaethau cyhoeddus allweddol i weithio mewn partneriaeth â chymunedau;
- archwilio ffyrdd o fynd i'r afael â'r diffyg staff cymwysedig ym maes adfywio cymunedol i ddiwallu anghenion y rhaglenni adfywio.

**Materion i'w hystyried**

Wrth fwrw ati â'r adolygiad, bydd y Pwyllgor yn ystyried y cwestiynau canlynol (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, ond bwriedir iddi roi rhagflas o'r math o faterion y bydd y Pwyllgor yn dymuno eu trafod):

- Beth yw rolau'r Cynulliad Cenedlaethol, yr awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn y broses o gynyddu gallu?
- Pa ofynion hyfforddi sy'n bodoli er mwyn galluogi staff yn y sector statudol i weithio mewn lleoliadau cymunedol?
- Pa fecanweithiau sydd eu hangen er mwyn rhoi'r sgiliau a'r hyder i aelodau'r gymuned gymryd rhan effeithiol mewn partneriaethau adfywio?

- Beth ellir ei wneud i sicrhau bod trigolion cymunedau lleol a chyrff gwirfoddol lleol yn cymryd rhan yn y broses adfywio, ac yn cyfrannu ati?
- Pa fecanweithiau cymorth sydd eu hangen er mwyn cynnal cyfraniad gan y gymuned?
- Pa anghenion a darpariaethau hyfforddi y gellir eu nodi er mwyn datblygu gweithlu cymwys a chymwysedig ym maes adfywio cymunedol?
- Sut y gellir sicrhau bod hyfforddiant adfywio cymunedol ar gyfer gweithwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr cymunedol ar gael ledled Cymru?

- A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r materion y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried?

**Cyhoeddi'r ymatebion**

Os nad yw'r cyfranwyr yn gofyn am gadw eu cyflwyniadau'n gyfrinachol, mae'r Pwyllgor yn bwriadu cyhoeddi'r holl ymatebion er mwyn i'r cyhoedd graffu arnynt.

**Yr amserlen**

Byddwn yn ddiolchgar petaech yn anfon unrhyw gyflwyniadau ataf i erbyn dydd Gwener 11 Hydref 2002.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gwahodd cyflwyniadau oddi wrth y rhai sydd ar y rhestr amgaeëdig. Yn ogystal, rhoddwyd copi o'r llythyr hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol, gyda gwahoddiad agored i eraill gyflwyno'u barn.

Yn gywir

**Roger Chaffey**
**Clerc y Pwyllgor**